



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Crynodeb o Aseiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

Teitl y cynnig:

Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022

Adran:

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething AC

Dyddiad Dechrau:

Tachwedd 2019

Cyfeiriad e-bost:

mentalhealthandvulnerablegroups@llyw.cymru

1

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Cefndir

Cyhoeddwyd Law yn Llaw at Iechyd Meddwl (strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru i wella iechyd meddwl a llesiant) ym mis Hydref 2012. Mae'n strategaeth drawslywodraethol ar gyfer pob oed, ac yn amrywio o wella lles meddyliol holl drigolion Cymru, i gynorthwyo pobl â salwch meddwl difrifol a pharhaus.

Mae'r strategaeth wedi'i hategu gan gynlluniau cyflawni tair blynedd sy'n gosod camau gweithredu allweddol i'w rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru ac asiantaethau rhanddeiliaid yn y sector statudol a'r trydydd sector. Cyflwynwyd y cynllun cyflawni cyntaf ar gyfer y cyfnod 2012-15 gyda'r strategaeth, roedd yr ail yn ymdrin â'r cyfnod 2016-2019 a bydd y trydydd yn ymdrin â chyfnod 2019-2022.

Ers cyhoeddi'r strategaeth drawslywodraethol 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl', mae proffil iechyd meddwl wedi tyfu'n sylweddol, ac mae cydnabyddiaeth gynyddol fod iechyd meddwl yn "fusnes i bawb". Mae Ffyniant i Bawb yn herio holl adrannau Llywodraeth Cymru i ystyried effaith eu gwaith ar iechyd meddwl a llesiant poblogaeth Cymru. O ganlyniad, gan adeiladu ar adolygiad cyflym o nifer o feysydd lle gwyddom y gallai ffocws ychwanegol ar draws adrannau'r llywodraeth gael effaith, mae'r cynllun cyflawni hwn yn rhoi mwy o bwyslais ar y ffactorau amddiffynnol ar gyfer iechyd meddwl da, gan nodi'r meysydd hynny o waith trawslywodraethol, megis addysg, cyflogaeth a thai, a all wneud cyfraniad sylweddol at wella canlyniadau iechyd meddwl a llesiant mewn ffordd sy'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Mae'r dull a fabwysiadwyd i ddatblygu'r cynllun cyflawni hwn hefyd wedi adlewyrchu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (fel y nodwyd isod) trwy bwysleisio pwysigrwydd gwasanaethau ataliol ac integredig gan gydnabod yr angen am ymagwedd fwy hirdymor. Rydym hefyd wedi ceisio gwreiddio gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn y cynllun.

Ffocws ar y byrdymor a'r hirdymor: Mae amryw o wahanol gamau gweithredu yn sail i'r cynllun cyflawni iechyd meddwl – gyda'r nod o gyflawni chwe chanlyniad lefel uchel y Strategaeth Iechyd Meddwl 10 mlynedd. Mae'r canlyniadau lefel uchel hyn yn cynnwys ffocws ar anghenion byrdymor a hirdymor y boblogaeth, gan adnabod bod gan nifer cynyddol o bobl yng Nghymru faterion iechyd meddwl.

Mae'r strategaeth iechyd meddwl a'i chynllun cyflawni yn ceisio sicrhau'r canlynol:

- Bod effeithiau problemau iechyd meddwl a/neu salwch meddwl yn cael eu hadnabod yn well ac yn lleihau.
- Bod anghydraddoldebau, stigma a gwahaniaethu yn lleihau.

2

- Bod unigolion yn cael gwell profiad o ran y gefnogaeth a'r driniaeth a gânt ac yn teimlo bod ganddynt fwy o reolaeth dros benderfyniadau.
- Bod gwell ansawdd a mynediad at fesurau ataliol ac ymyriadau cynnar i hybu gwellhad.
- Bod gwerthoedd, agweddau a sgiliau gwell gan y rhai sy'n cefnogi unigolion o bob oed sydd â phroblemau iechyd meddwl.

Mae'r cynllun cyflawni (2019-2022) yn cynnwys cydbwysedd o ymrwymadau sy'n canolbwyntio ar "yr hyn sy'n digwydd yn awr" (er enghraifft - o ran gwella mynediad i wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer y rheini sydd angen cymorth). Hefyd hyrwyddo gweledigaeth hirdymor ar gyfer Cymru iachach a mwy cyfartal, drwy wella gwynwch a gwneud y gorau o gyfleoedd i fynd i'r afael â'r pethau ehangach sy'n effeithio ar iechyd a llesiant.

Ffocws ar atal: Mae atal a hyrwyddo llesiant meddwl cadarnhaol yn brif nodweddion o'r cynllun cyflawni hwn, gyda chamau gweithredu ar lefel unigol a chymunedol. Mae'n adlewyrchu pwysigrwydd symud oddi wrth feddwl am iechyd meddwl mewn modd clinigol, a dechrau ei ystyried fel rhan o sgwrs bob dydd. Mae ffocws ar hyrwyddo llesiant meddwl cadarnhaol ac edrych ar gryfderau yn hytrach na phroblemau - a chydabod pwysigrwydd rhwydweithiau cefnogi anffurfiol a'r ffactorau sy'n cadw pobl yn iach - yn ffyrdd o weithio sy'n ganolog i'r cynllun cyflawni (ac sy'n helpu i fynd i'r afael â symptomau ac achosion iechyd meddwl gwael). Mae'r cynllun cyflawni hefyd yn cynnwys ffocws penodol ar atal hunanladdiad a hunan niwed drwy Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan Niwed Siarad â Fi 2 Llywodraeth Cymru. Mae pwyslais y cynllun cyflawni ar ymyriad cynnar er mwyn atal niwed mwy hirdymor cyn iddo ddigwydd hefyd yn cynnwys atal dod i gysylltiad â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae hyn yn cydnabod swmp cynyddol o dystiolaeth ryngwladol am effeithiau hirdymor negyddol ar ganlyniadau iechyd a llesiant, yn enwedig canlyniadau iechyd meddwl, a all ddeillio o brofi trawma plentyndod cyn cyrraedd 18 oed. Drwy ganolbwyntio ar wella iechyd meddwl pobl Cymru, bydd y cynllun cyflawni diweddaraf yn parhau i wneud cyfraniad pwysig i dorri'r cychoedd negyddol - er enghraifft, trwy gefnogi pobl â phroblemau iechyd meddwl i gael gwaith ac aros mewn gwaith, gan leihau eu risg o fod mewn tldi. Drwy gyflawni camau gweithredu sy'n hyrwyddo iechyd meddwl a llesiant da a lleihau stigma a gwahaniaethu, mae'r cynllun cyflawni hefyd yn ceisio cael effaith gadarnhaol ar gydlynid cymdeithasol a chymunedol.

Ffocws ar integreiddio: Mae'r cynllun cyflawni Iechyd Meddwl wedi'i integreiddio mewn datblygiadau polisi ehangach - gyda'r nodau yn hanfodol i gyflawni *Cymru Iachach a Ffyniant i Bawb*. Ar ei lefel fwyaf strategol, nod *Cymru Iachach* yw sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru i'r dyfodol. Mae'n nodi'r camau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r GIG yng Nghymru, awdurdodau lleol, y sectorau gofal gwirfoddol ac annibynnol a'r gwasanaethau cyhoeddus ehangach i sicrhau'r trawsnewidiad gofynnol ledled Cymru i sicrhau bod gennym wasanaethau iechyd a gofal cynaliadwy, seiliedig ar werth, o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion ein dinasyddion yn awr ac yn y dyfodol. Un o'r pedair thema allweddol yn 'Ffyniant i Bawb' yw 'Iach ac Egniol', a nod Llywodraeth Cymru yw gwella iechyd a llesiant

dinasyddion Cymru. Mae ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol i gyflawni'r amcan cyffredinol hwn, ac mae *Cymru Iachach* yn nodi'r ffyrdd yr ydym yn disgwyl iddynt ei gefnogi, drwy ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal effeithiol a chynaliadwy, a'i gwneud yn ofynnol iddynt roi mwy o bwyslais ar atal ac ymyrraeth gynnar gyda'r nod o hyrwyddo ffordd iach o fyw a lleihau anghydraddoldebau iechyd¹ Nodir camau gweithredu ar gyfer y boblogaeth ehangach yn y cynllun cyflawni, fel mynediad i fannau gwyrdd a rhaglenni gweithgaredd corfforol, yn ogystal â chysylltu pobl mewn cymunedau i osgoi unigedd. Mae'r rhain yn gofyn am gyfraniad gan ystod eang o randdeiliaid. Mae'r cynllun cyflawni yn cael ei weithredu gyda seilwaith amrywiol randdeiliaid drwy'r Byrddau Partneriaeth Cenedlaethol a Lleol, sy'n hyrwyddo integreiddio drwy gyflwyno safbwyntiau amrywiol. Mae ei weithrediad hefyd wedi'i gefnogi, er enghraifft, trwy lywio rhai o'r adnoddau ariannol ychwanegol ar gyfer iechyd meddwl trwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a thrwy osod disgwyliadau ynghylch cynnwys y trydydd sector, yn ogystal â phartneriaethau cryf gyda'r heddlu a llywodraeth leol, dylai'r cynllun sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu ar y lefel gywir ac ar yr adeg gywir. Mae prosiectau trawsnewid yn cefnogi integreiddio trwy sefydlu modelau gofal newydd fel canolfannau cymunedol sy'n dod â gwasanaethau ynghyd mewn un lle, gan wella'r canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a gwneud y defnydd gorau o le ac adnoddau. Mae'r cynllun cyflawni hefyd yn cynnwys ffocws ar anghenion cymhleth, i osgoi gorfodi unigolion i ailadrodd eu profiadau a chydweithredu i adnabod ffactorau a dewisiadau lluosog i gefnogi pobl sydd angen cymorth amlddisgyblaethol.

Costau ac Arbedion

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i wario mwy ar wasanaethau iechyd meddwl nag unrhyw ran arall o'r GIG ac rydym wedi cynyddu'r cyllid a neilltuwyd ar gyfer iechyd meddwl ym mhrif ddyraniad y GIG i dros £700 miliwn yn 2020-21. Bydd cyllid ychwanegol fel rhan o'n cynllun *Cymru Iachach* yn 2019/20 yn cael ei dargedu tuag at y meysydd blaenoriaeth y cytunwyd arnynt – gan gynnwys galluogi ymyriad cynharach, gwell mynediad at wasanaethau a gwell canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau, eu gofalwyr a'u teuluoedd.

Mecanwaith

Mae camau gweithredu penodol yn sail i bob un o'r blaenoriaethau yn y cynllun cyflawni, a byddant yn cael eu monitro'n barhaus a'u goruchwylio gan Fwrdd Partneriaeth Cenedlaethol. Mae'r cynllun cyflawni wedi'i gefnogi gan fframwaith deddfwriaethol presennol. Mae'r deddfwriaeth iechyd meddwl a galluedd meddyliol sydd ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd yn adlewyrchu rhai o'r newidiadau cymdeithasol a pholisi sydd wedi digwydd yn y blynyddoedd diwethaf. Mae gan y tri phrif fframwaith cyfreithiol, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Deddf Galluedd Meddyliol 2005, gan gynnwys y trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, bwyntiau cyswllt â'i gilydd (sydd weithiau'n gymhleth) a phwyntiau sy'n ymgysylltu â hawliau dynol pobl. Mae'r tair Deddf hefyd yn adlewyrchu continwmm o feysydd polisi datganoledig a meysydd polisi a gedwir yn ôl, ond maent yn rhannu nodwedd gyffredin sef bod pobl yn dod i gysylltiad â'r

¹ http://www.who.int/social_determinants/thecommission/finalreport/key_concepts/en/

deddfwriaeth yn bennaf trwy ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol. Yng Nghymru, mae deddfwriaeth iechyd meddwl a galluedd meddyliol hefyd yn gweithredu'n agos â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Deddf Cydraddoldeb 2010.

Casgliadau

Sut y mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Mae'r cynllun yn cefnogi'r weledigaeth a amlinellwyd yn 'Cymru Iachach' gyda'i ffocws ar ofal integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a ddarperir mewn ffordd sydd wedi'i llywio gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Roedd tri cham i'r broses ymgysylltu / ymgynghori a oedd yn cyfrannu at ddatblygu'r blaenoriaethau yn y cynllun cyflawni Iechyd Meddwl:

- **Paratoi** – adolygu'r cynnydd a'r dystiolaeth, trafodaethau ar draws y sectorau ac yn y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl. Darparodd hyn y prif flaenoriaethau drafft ar gyfer y cynllun.
- **Cyn ymgynghori** – trafodaethau manwl â'r bobl â phrofiad mewn bywyd, partneriaid cyflawni, ac eraill i gytuno ar y blaenoriaethau a'r cynlluniau gweithredu yn y cynllun. Roedd yr ymgysylltu cyn yr ymgynghoriad yn cynnwys cyfres o weithdai ledled Cymru a thrafodaethau wedi'u hwyluso, yn ogystal â chyfarfodydd anffurfiol. Lluniwyd cynllun drafft yn y cam hwn, a adolygwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ac eraill.
- **Ymgynghoriad Ffurfiol** - Lanswyd ymgynghoriad chwe wythnos ynghylch cynllun cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru 2019-22 ar 18 Gorffennaf 2019 a daeth i ben ar 30 Awst 2019.²

Mae'r camau hyn wedi cynnwys ymglymiad parhaus gyda rhanddeiliaid allweddol, grwpiau diddordeb a'r rhai hynny â nodweddion gwarchoddedig (gan gynnwys plant a phobl ifanc) - yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a CCUHP.

Prif Themâu'r Ymgynghoriad:

Roedd y materion allweddol a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori chwe wythnos (mewn digwyddiadau ymgynghori ac yn y 240 o ymatebion ysgrifenedig) yn cynnwys galwadau am ffocws cryfach yn y cynllun cyflawni ar fynd i'r afael â'r canlynol:

- anghydraddoldebau iechyd a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd
- plant a phobl ifanc
- gofal mewn argyfwng a thu allan i oriau
- ymyrraeth gynnar / atal

² <https://llyw.cymru/law-yn-llaw-iechyd-meddwl-cynllun-cyflawni-2019-i-2022>

- ffactorau amddiffynnol

Gyda phwyslais arbennig ar y canlynol:

- tai
- cyswllt efo'r trydydd sector wrth ddarparu gwasanaethau
- gofal sylfaenol
- canlyniadau ac effeithiau - cefnogi'r gweithlu
- gwaith traws sector
- grwpiau agored i niwed ac ystyried nodweddion gwarchoddedig

Mewn perthynas â phlant a phobl ifanc, roedd y themâu allweddol a godwyd yn cynnwys: Dylai bod pwyslais ar ymyrraeth gynnar ac atal, yn enwedig o ran y rhai hynny sy'n byw mewn tlodi neu'n dod o gefndir cymdeithasol-economaidd isel. Yn benodol, dylid canolbwyntio ar berthnasau rhwng babanod a rhieni er mwyn lleihau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Roedd yr ymateb i'r flaenoriaeth o wella iechyd a llesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc yn gadarnhaol dros ben gyda rhai awgrymiadau o gamau gweithredu penodol ar gyfer gwella gwasanaethau ar gyfer y rhai hynny ag anghenion dysgu ychwanegol, ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth a lleihau anghydraddoldebau. Roedd nifer o'r ymatebion yn teimlo mai'r gweithgareddau yn ymwneud â phlant a phobl ifanc fydda'n cael yr effaith fwyaf yn gyffredinol gan y byddai hyn yn gwella bywydau plant - yn fanteisiol i'w teuluoedd a, gan edrych tua'r dyfodol, yn lleihau'r galw ar wasanaethau yn ddiweddarach yn eu bywydau.

Mewn perthynas â chefnogi'r rhai hynny â nodweddion gwarchoddedig a grwpiau agored i niwed: Nododd nifer o ymatebwyr y byddai'r cynllun cyflawni yn cael effaith gadarnhaol (i wahanol raddau) ar lesiant meddwl y bobl â nodweddion gwarchoddedig a grwpiau agored i niwed. Nododd nifer o randdeiliaid hefyd (er y nodwyd hyn yn y cynllun) nad oedd unrhyw gamau gweithredu penodol i dargedu cymorth ac ystyried anghenion y rhai â nodweddion gwarchoddedig, sy'n llai tebygol yn hanesyddol o estyn allan i gael cymorth ac sydd â risg uwch o ddatblygu salwch meddwl. Oherwydd bod pob grŵp yn wahanol, roedd llawer o'r sylwadau yn awgrymu camau gweithredu penodol fel y gellir mesur effaith y ddarpariaeth ar y rhai hynny â nodweddion gwarchoddedig. Yn dilyn yr adborth hwn i'r ymgynghoriad, mae'r cynllun cyflawni wedi'i adolygu i gynnwys thema benodol newydd (lleihau anghydraddoldebau iechyd, hyrwyddo mynediad cyfartal a chefnogi'r iaith Gymraeg) sy'n ceisio sicrhau bod gan bob person yng Nghymru fynediad cyfartal at gymorth gydag anawsterau iechyd meddwl. Mae cam gweithredu allweddol newydd wedi'i ychwanegol i Lywodraeth Cymru barhau i gefnogi ystod o raglenni a chynlluniau i ddiogelu grwpiau agored i niwed drwy gydol y cyfnod darparu a gwella mynediad i wasanaethau ar gyfer unigolion ag anghenion ychwanegol.

Ymgysylltu parhaus:

Mae'r cynllun cyflawni yn cefnogi'r weledigaeth a amlinellwyd yn 'Cymru Iachach' gyda'i ffocws ar ofal integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a ddarperir mewn ffordd sydd wedi'i llywio gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Drwy'r cynllun cyflawni, bydd yr ymgysylltu hwn yn parhau.

□ *Plant a'u cynrychiolwyr*

Mae fersiwn hygyrch a fersiwn i blant o'r cynllun cyflawni yn cael eu datblygu. Drwy sefydlu'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid Cenedlaethol i gefnogi'r Dull Ysgol Gyfan a'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, bydd ein cysylltiadau â phlant a phobl ifanc yn parhau. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid a gyda Senedd Ieuenctid Cymru wrth i'r cynllun cyflawni gael ei roi ar waith dros y cyfnod 2019-2022.

□ *Pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010*

Bydd ymgysylltiad parhaus gyda rhanddeiliaid iechyd meddwl trwy fforymau fel Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru, y Fforwm Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr Cenedlaethol a thrwy'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl, yn ogystal â'n gweithgareddau fel darparu cynllun achredu Diverse Cymru sy'n cysylltu'n uniongyrchol â gwasanaethau i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y rhai hynny â nodweddion gwarchoddedig. Bydd yn cael ei fonitro drwy ddiweddariadau ar gynnydd yn erbyn camau gweithredu'r cynllun cyflawni.

□ *Siaradwyr Cymraeg a grwpiau arbenigol ym maes y Gymraeg*

Bydd materion a gofynion y Gymraeg yn cael eu hystyried yn barhaus o ran gweithredu a gorfodi cynllun cyflawni 2019-22 a thrwy'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl.

□ *Pobl eraill y gallai'r cynigion effeithio arnynt*

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n dal i ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhan o ffrydiau gwaith parhaus a'r ymrwymadau sy'n sail i'r cynllun cyflawni.

Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Mae'r Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn nodi nifer o ganlyniadau lefel uchel gyda'r amcan o gyflawni gwelliant sylweddol i ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau iechyd meddwl i bob oed. Wrth wneud hynny, rhagwelir y bydd y cynllun yn gwneud cyfraniad pwysig i sicrhau bod cydraddoldeb (o ran iechyd meddwl ac iechyd corfforol a mynediad at ofal) - a bydd yn gwneud cyfraniad pwysig at ddarparu nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r ffocws ar greu Cymru iachach, fwy cyfartal a mwy gwydn (fel y nodwyd isod). Mae'r Strategaeth yn cydnabod bod achosion ac effeithiau iechyd meddwl gwael yn gymhleth, yn heriol ac yn amlochrog, ac o ganlyniad bod angen dull gweithredu integredig, trawslywodraethol a thraws-sector os ydym i gyflawni'r canlyniadau hyn. Er bod cynllun cyflawni 2019-22 yn amlinellu nifer o feysydd â blaenoriaeth ar gyfer y tair blynedd nesaf, mae rhai o'r camau gweithredu hyn yn barhad angenrheidiol ac yn fuddsoddiad mewn gwasanaethau. Mewn rhai camau gweithredu, bwriedir i'r cynllun cyflawni gymell newid sylweddol mewn darpariaeth gwasanaethau a/neu weithgaredd ychwanegol dan arweiniad y llywodraeth i hyrwyddo iechyd meddwl da ar lefel y boblogaeth

Yn dilyn yr effeithiau a nodwyd, sut fydd y cynnig yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf i'n hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu yn osgoi, yn lleihau neu'n lleddfu unrhyw effeithiau negyddol?

Mae'r blaenoriaethau yn y cynllun cyflawni yn y bôn yn gysylltiedig â hyrwyddo Cymru iachach a hybu a hyrwyddo cyfle cyfartal. Byddant hefyd yn cyfrannu at ddarparu cymunedau gwydn, cydlynol a ffyniannus.

Mae **Blaenoriaeth 1** yn ymwneud â gwella iechyd meddwl a llesiant a lleihau anghydraddoldeb drwy roi ffocws ar gryfhau ffactorau diogelu. Bydd y camau sy'n cael eu cymryd dan y flaenoriaeth hon yn sicrhau y gall pobl gael mynediad at weithgareddau sy'n eu helpu i fod yn iach a datblygu perthnasau cadarnhaol. Y nod yw y bydd cymunedau lleol yn hyrwyddo llesiant meddyliol cadarnhaol ac yn annog siarad am iechyd meddwl, os ystyrir bod iechyd meddwl yn "fusnes i bawb". Dan y flaenoriaeth hon mae ffocws ar fynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu; cryfhau ffactorau amddiffynnol; gwella a hyrwyddo iechyd meddwl a chydnerthedd; atal hunanladdiad a hunan-niwed.

Mae **Blaenoriaeth 2** yn ymwneud â gwella mynediad at gymorth ar gyfer llesiant iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc. Bydd y camau sy'n cael eu cymryd dan y flaenoriaeth hon yn cefnogi pobl i ddatblygu eu gallu i ymdopi'n well â heriau bob dydd. Byddant hefyd yn helpu athrawon ac eraill i adnabod pan fydd pobl angen mwy o gymorth a sut i gael gafael arno. Os oes angen i unigolion gael gwasanaethau arbenigol, bydd y camau ar gyfer y flaenoriaeth hon yn sicrhau y gall pobl gael y gymorth sydd ei angen arnynt, pan fyddant ei angen. Dan y flaenoriaeth hon mae ffocws ar wella mynediad at gymorth iechyd meddwl mewn ysgolion; gwella mynediad at gymorth yn y gymuned i blant a phobl ifanc; a gwella gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

Mae **Blaenoriaeth 3** yn ymwneud â gwneud gwelliannau pellach i ddarpariaeth argyfwng a thu allan i oriau ar gyfer plant, oedolion o oedran gweithio ac oedolion hŷn. Bydd y camau gweithredu yn helpu pobl i gael cymorth pan fyddant mewn tralod, dim ots faint o'r gloch yw hi. Bydd staff rheng flaen hefyd yn cael cymorth i ddarparu gofal tosturiol. Dan y flaenoriaeth hon, mae ffocws penodol ar gryfhau gwaith partneriaeth drwy'r Concordat Gofal mewn Argyfwng Iechyd Meddwl.

Mae **Blaenoriaeth 4** yn ymwneud â gwella mynediad, ansawdd ac ystod y therapïau seicolegol i blant, oedolion o oedran gweithio ac oedolion hŷn. Bydd y camau gweithredu yn sicrhau y gall bobl gael gafael ar y therapïau seicolegol mwyaf priodol a seiliedig ar dystiolaeth i'w cefnogi, a hynny mewn modd amserol. Bydd unigolion hefyd yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch eu gofal.

Mae **Blaenoriaeth 5** yn ymwneud â gwella ansawdd a mynediad at wasanaethau iechyd meddwl amenedigol. Bydd y camau hyn yn sicrhau, os bydd rhywun yn cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl yn ystod eu beichiogrwydd neu ar ôl hynny, y byddant yn gallu cael gafael ar gymorth priodol. Os oes angen cymorth mwy arbenigol arnynt, mae ymrwymadau yn y cynllun cyflawni i sicrhau y byddant yn gallu cael mynediad at hyn yn nes at eu cartref a gyda'u babi.

Mae **Blaenoriaeth 6** yn ymwneud â gwella ansawdd a thrawsnewid y gwasanaeth. Bydd y camau hyn yn helpu i sicrhau pobl y bydd y gwasanaethau y maent eu hangen yn gwella'n barhaus ac yn ymateb i'w hanghenion unigol. Mae'r camau gweithredu yn cynnwys ffocws ar gefnogi mynediad at gymorth iechyd meddwl priodol ar gyfer plant, pobl ifanc, oedolion o oedran gweithio ac oedolion hŷn; gwella cymorth ar gyfer anhwylderau bwyta; gwella cymorth ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnydd sylweddau ar y cyd; gwella ymyriadau cynnar mewn gwasanaethau seicosis; gwella cymorth i bobl sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.

Yn gryno, mae'r cynllun cyflawni yn ymwneud â phobl o bob oed yn gweld gwelliant i'w hiechyd meddwl a'u llesiant drwy gael mynediad at gyfleoedd bywyd cadarnhaol.

Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei fonitro a'i werthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan gaiff ei gwblhau?

Bydd cynnydd wrth gyflawni'r camau gweithredu yn y cynllun cyflawni yn cael ei fonitro drwy'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol. Mae aelodaeth y bwrdd yn cynnwys Llywodraeth Cymru, asiantaethau statudol, asiantaethau cyfiawnder troseddol, y trydydd sector a chynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Mae'r bwrdd amlasiantaethol lefel uchel hwn yn gweithredu fel bwrdd sicrwydd traws-sector i dynnu sylw at gynnydd mewn perthynas ag unrhyw ffrydiau gwaith, materion a ddaw i'r amlwg ac unrhyw risgiau i ddarparu'r strategaeth iechyd meddwl a'i chynllun cyflawni cysylltiedig. I gynorthwyo'r Bwrdd Partneriaeth mae is-grwpiau sy'n rhoi sicrwydd mewn perthynas â chymau gweithredu (mae'r rhain yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc a phobl hŷn).

Yn lleol, mae darpariaeth yn cael ei monitro gan Fyrddau Partneriaeth Lleol yn seiliedig ar ardal y bwrdd iechyd, gydag aelodaeth rhanddeiliaid tebyg i aelodaeth y

Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol. Gwneir cais am adroddiadau cynnydd blynyddol a bydd byrddau iechyd hefyd yn defnyddio'r cynlluniau hyn i hysbysu blaenoriaethau yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Mae'r cynllun cyflawni hefyd yn amlinellu dangosyddion allweddol a mesurau perfformiad ar gyfer mesur cynnydd. Bydd gwerthusiad annibynnol o'r cynllun cyflawni ar gyfer 2019-2022 hefyd yn cael ei gomisiynu.

Mae'r ddogfen yma
hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also
available in English.

OGI © Hawlfraint y Goron 2018 WGxxxx ISBN Digidol xxxxxx